Ombwdsmon

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Sut i gwyno

## bod aelod o awdurdod lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad



## 1 Pwy yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?

Caiff yr Ombwdsmon ei benodi gan y Frenhines i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi cam ymddwyn. Mae'n annibynnol ac yn ddiduedd. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Nick Bennett yw'r Ombwdsmon presennol.

Gall yr Ombwdsmon ystyried cwynion am ymddygiad aelodau'r canlynol:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol;
- cynghorau cymuned;
- awdurdodau tân, ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol; a
- phanelau heddlu a throsedd.

Mae gan bob un o'r rhain god ymddygiad sy'n nodi'n fanwl sut y dylai aelodau gydymffurfio ag egwyddorion cydnabyddedig ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus.

## 2 Pwy all gyflwyno'r gŵyn ac am beth y gallwch gwyno?

Gall unrhyw un gyflwyno cwyn, ar yr amod bod ganddynt wybodaeth uniongyrchol am yr ymddygiad y maent yn cwyno amdano.

Os ydych chi eich hun yn gynghorydd, mae'n ddyletswydd arnoch yn unol â chod eich awdurdod, i dynnu sylw at unrhyw dystiolaeth sydd gennych fod un o'ch cyd-gynghorwyr wedi torri'r cod. Os ydych yn gynghorydd sir a bod gan eich awdurdod broses datrysiad lleol ac eich bod yn dymuno cyflwyno cwyn yn erbyn cynghorydd arall o fewn eich awdurdod, dylech yn y lle cyntaf gyflwyno eich cwyn i'r Swyddog Monitro. Y rheswm dros hyn yw ei bod hi'n bosibl y gall eich cwyn gael ei datrys yn lleol heb ymwnelo'r Ombwdsmon. Er hynny, rhaid ichi gofio bod hefyd gennych gyfrifoldeb o dan y cod i beidio â gwneud honiadau er mwyn poenydio aelod arall.

Mae enghreifftiau o'r ffyrdd y gallai aelod dorri cod ymddygiad awdurdod yn cynnwys:

- ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar yr awdurdod;
- defnyddio'i swydd yn annheg er mwyn cael mantais bersonol neu fantais i rywun arall – neu fychanu rhywun arall;
- defnydd amhriodol o adnoddau'r awdurdod;
- methiant i ddatgan cysylltiad;
- ymddygiad gormesol;
- methiant i drin pawb yn gydradd; a
- datgelu gwybodaeth gyfrinachol am unigolion heb reswm da.

## 3 Materion nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ymchwilio iddynt

- Cwynion am ymddygiad cyflogeion unigol yr awdurdod (ond os arweiniodd eu hymddygiad at driniaeth a oedd yn annheg â chi, neu at dderbyn gwasanaeth gwael, gallwch gwyno am yr awdurdod ei hun. Mae ffurflen ar wahân ar gael i'ch helpu i wneud hyn).
- Cwynion na chawsant eu cyflwyno'n ysgrifenedig, neu a gyflwynwyd yn ddienw.

## 4 Sut mae cyflwyno cwyn?

- Mae'n rhaid i chi fod yn barod i'r aelod a'r awdurdod dan sylw gael gwybod pwy ydych a beth ddywedoch yn eich cwyn. Rhaid ichi hefyd fod yn barod ar gyfer y posibilrwydd y gall ddod yn wybodaeth gyhoeddus. Efallai y bydd angen i chi gael eich cyfweld fel rhan o unrhyw ymchwiliad.
- Mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch cwyn yn ysgrifenedig, a gorau oll os byddwch yn defnyddio'r ffurflen yn y daflen hon. Os nad ydych yn gallu gwneud hyn eich hunain, cysylltwch â ni ar 0300 790 0203.
- Mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr Ombwdsmon yn union sut wnaeth yr aelod dorri cod ei awdurdod yn eich tyb chi. (Mae'n rhaid i chi roi rhywfaint o dystiolaeth uniongyrchol i ategu hyn – ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn sy'n seiliedig ar rywbeth y mae rhywun arall wedi'i ddweud wrthych.)

## 5 Beth fydd yn digwydd wedi i chi gwblhau'r ffurflen gwyno a'i dychwelyd at yr Ombwdsmon?

Byddwn yn ysgrifennu atoch i gydnabod derbyn y gŵyn. Wedyn byddwn yn ei hasesu er mwyn penderfynu a fyddwn yn ymchwilio iddi. Weithiau, efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi er mwyn cael mwy o eglurhad ar agwedd benodol ar y gŵyn. Os byddwn yn penderfynu peidio ag ymchwilio iddi, byddwn yn egluro wrthych beth yw'r rheswm. Os byddwn yn penderfynu cynnal ymchwiliad byddwn yn eich hysbysu pan fo'r ymchwiliad wedi cychwyn, ac yn rhoi gwybod ichi'r canlyniad.

Mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i benderfynu a fydd yn ymchwilio i unrhyw gŵyn. Mae rhai o'r cwynion y bydd yn eu derbyn yn rhy ddibwys i warantu ymchwiliad.

Mae nifer o'r cwynion y mae'r Ombwdsmon yn eu derbyn yn ymwneud â phethau anfoesgar neu ddadleuol y mae aelodau wedi'u dweud. Nid yw'r cod wedi'i fwriadu i fod yn rhwystr i ddadleuon gwleidyddol grymus.

Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn yn ymwneud â thorri'r cod ymddygiad, mae'r Ombwdsmon yn rhoi prawf dau gam ar waith:

- yn gyntaf, mae'n mynd ati i sefydlu a oes tystiolaeth bod y cod wedi'i dorri mewn gwirionedd;
- os oes, yna mae'n ystyried a fyddai'r toriad honedig, os wedi ei brofi, yn debygol o arwain at gosbi'r aelod. Wrth gymryd ei benderfyniad mae'r Ombwdsmon yn ystyried canlyniadau achosion blaenorol sydd wedi cael eu hystyried gan bwyllgorau safonau a Phaneli Dyfarnu ledled Cymru.

Os yw'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod y cam cyntaf o'r prawf dau gam wedi ei gwrdd ond nid yr ail gam, fe fydd yn ysgrifennu at Swyddog Monitro'r awdurdod lleol perthnasol yn datgan ei fwriad i beidio ag ymchwilio i'r gŵyn. Bydd yr Ombwdsmon yn gofyn i'r Swyddog Monitro a yw yn dymuno ymchwilio i'r mater ar lefel leol. Os yw'r Swyddog Monitro yn cytuno nad oes gofyn ymchwilio i'r gŵyn fe hysbysir yr achwynydd o'r penderfyniad i beidio ymchwilio. Os yw'r Swyddog Monitro yn dweud bod ymchwiliad lleol yn briodol, yna yn ôl yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i'r Swyddog Monitro ar gyfer ei ymchwiliad lleol ei hun.

## 6 Beth yw'r canlyniadau posib yn dilyn ymchwiliad?

Bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio yn drylwyr ac yn deg. Bydd yn gweithredu mor gyflym â phosib. Bydd yr amser a gymer i gynnal ymchwiliad yn amrywio gan ddibynnu pa mor gymhleth ydyw. Fel arfer bydd yn cael ei gwblhau o fewn naw mis. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi gan roi gwybod pa gynnydd sy'n cael ei wneud. Os bydd yn meddwl bod hynny'n briodol, gall yr Ombwdsmon atal ei ymchwiliad ar unrhyw adeg.

Unwaith iddo gwblhau ei ymchwiliad, gall yr Ombwdsmon benderfynu nad oes tystiolaeth fod y cod wedi'i dorri, neu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Os bydd yn dod i'r casgliad bod tystiolaeth i'w chael sy'n cyfiawnhau hynny, bydd yn anfon adroddiad ffurfiol naill ai at bwyllgor safonau'r awdurdod neu, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, at Banel Dyfarnu Cymru. Efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth iddynt. Hwy fydd i benderfynu a dorrwyd y cod ymddygiad ac, os felly, pa gosb y dylid ei rhoi i'r aelod dan sylw. Y gosb uchaf y gall pwyllgor safonau ei roi i aelod yw ei wahardd o'i swydd am chwe mis a'r gosb uchaf y gall dribiwnlys o'r Panel Dyfarnu ei roi yw diarddeliad am bum mlynedd.

**Cysylltu â ni**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
Ffacs: 01656 641199
E-bost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk
Y We: www.ombwdsmon-cymru.org.uk
Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: @Ombwdsmon

Wedi'i brintio ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
Ionawr 2016